# SIARTER HAWLIAU GWEITHWYR LLAWRYDD

# BARGEN DEG I WEITHWYR LLAWRYDD

**Mae'r argyfwng Covid-19 wedi peri i'r gweithwyr llawrydd ar draws diwydiant y cyfryngau, sydd mewn sefyllfa fregus yn barod, gael eu hymyleiddio ymhellach. Mae'r Siarter Hawliau Gweithwyr Llawrydd hwn gan yr NUJ yn galw am amddiffyniadau a buddiannau gwell, ni waeth be fo'u statws cyflogaeth. Cefnogwch ein galwad am Fargen Deg i Weithwyr Llawrydd, lle bydd gan yr holl weithwyr llawrydd yr hawl i'r canlynol:**

1. Cydfargeinio gan undebau llafur i wella'r telerau ac amodau i weithwyr llawrydd, ar y cyd ag i staff
2. Contractau ysgrifenedig teg sy'n rhydd rhag y bygythiad o anfantais am fynnu eu hawliau
3. Parchu eu hawliau creawdwyr a'u hawliau moesol anaralladwy
4. Hawliau sy'n gyfartal â hawliau gweithwyr cyflogedig yn cynnwys: cyflog salwch; absenoldeb rhiant, mamolaeth a thadolaeth; budd-dal diweithdra; mynediad llawn at fudd-daliadau a nawdd cymdeithasol
5. Cael dewis eu dull o weithio'n llawrydd ac o gael eu trethu, gan roi terfyn ar daliadau treth ymlaen llaw
6. Gweithio'n rhydd rhag y pwysau i weithredu ar sail y Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE), neu i ymgorffori, neu weithio drwy gwmnïau ambarél
7. Amddiffyniadau iechyd a diogelwch cyfartal, yn cynnwys darpariaeth ddiogelwch, hyfforddiant ac yswiriant cyffelyb
8. Ffioedd a thelerau teg, a thaliadau cyflym
9. Urddas a pharch yn y gwaith, yn rhydd rhag bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, gyda mynediad cyffelyb at weithdrefnau cwyno
10. Hawliau proffesiynol cyfartal, yn cynnwys yr hawl i ddiogelu ffynonellau, ceisio gwybodaeth a chynnal safonau moesegol

#FairDeal4Freelances

#FairDeal4Freelances

NUJ
NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

www.nuj.org.uk